CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, DDYDD MERCHER, 31 HYDREF 2018, AM 10.30AM.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd), a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

N. Jenkins ac S. Jones (Swyddfa Archwilio Cymru).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro).

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET – 17 HYDREF 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2018 (cofnod rhifau 1–7), a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

### 4. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL 2017/18

Croesawodd y Cadeirydd N. Jenkins ac S. Jones, o Swyddfa Archwilio Cymru, i'r cyfarfod. Rhoesant amlinelliad o negeseuon allweddol eu Hadroddiad Gwella Blynyddol (atodiad i

Adroddiad y Swyddog) a gyhoeddwyd ddiwedd mis Awst 2018. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn barnu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio, ac a yw'n debygol o gydymffurfio, â'r ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus'. Ar gyfer 2017/18, dyfarniad Swyddfa Archwilio Cymru oedd: *"Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus."*

Cyfeiriwyd y Cabinet at dudalen 6, Atodiad 1, sy'n rhoi crynodeb byr o'r gwaith a wnaed yn 2017/18. Mae hyn yn cynnwys yr adolygiad, 'Craffu: Addas ar gyfer y Dyfodol', a gyflawnwyd ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r adolygiad yn cynnwys tri chynnig ar gyfer gwella. Cafodd yr adolygiad ei gyflwyno, a'i drafod, yn ystod cyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth Craffu ar 11 Hydref 2018 a chyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 16 Hydref 2018. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd o ran cynllunio ac adrodd ar welliant, drwy ei Amcanion Llesiant cyhoeddedig, a'r asesiad o berfformiad yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2016/17. Darparodd Swyddfa Archwilio Cymru dystysgrifau cadarnhau bod y dyletswyddau hyn wedi'u cyflawni, a derbyniwyd y rhain gan y Pwyllgor Archwilio fel eitemau gwybodaeth ar 14 Mehefin 2017 a 30 Ionawr 2018. Pan ddaw adroddiadau unigol i law, fe'u hadroddir i'r Aelodau drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn grynodeb o'r allbynnau unigol hynny. Yna, cyfeiriwyd at y rhestr o waith Archwilio Perfformiad sy'n weddill i'w gwblhau gan Swyddfa Archwilio Cymru sy'n dal i fynd rhagddo a chaiff ei adrodd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol nesaf. Ymhlith y meysydd mae:- Adolygiad Thematig: Adolygiad o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau; Gwaith Lleol: Adolygiad o'r Portffolio Gwella Busnes; a Gwaith Lleol: Gwaith Dilynol SATC. Eglurwyd argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2017-18 yn Atodiad 3, a oedd yn grynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf.

Wrth gloi, diolchodd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru i'r Cyngor am weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a chydweithredu â hi, drwy gydol y flwyddyn. Yn ei dro, diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am baratoi adroddiad mor eang, a chadarnhau bod y Cyngor wedi ymrwymo i welliant parhaus yn ei swyddogaeth Craffu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad, i nodi ei gynnwys.

**5. CYNNIG I SEFYDLU CRONFA WRTH GEFN WEDI'I CHLUSTNODI AR GYFER BUDDSODDI MEWN TECHNOLEG DDIGIDOL**

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet i sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi, o'r tanwariant net rhagamcanol o gyllideb refeniw 2018/19 ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, er mwyn hwyluso buddsoddi mewn Technoleg Ddigidol i drawsnewid y Gwasanaethau i Gwsmeriaid yn yr Awdurdod.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr Awdurdod, ar hyn o bryd, yn defnyddio nifer o becynnau meddalwedd i gefnogi rhyngweithio rhwng cwsmeriaid a'r Awdurdod. Ar y cyfan, systemau annibynnol yw'r rhain, a phrin yw'r rhyngweithio o'r naill ben i'r llall, sy'n golygu llawer o waith ail-gofnodi ac ymyrraeth gan staff. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y system bresennol ar gyfer Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn llwyfan fewnol â chyfleoedd cyfyngedig i wella, ac nid yw'r system yn addas i'r diben ar hyn o bryd. Dywedwyd y bydd trawsnewidiad digidol yn treiddio trwy bob diwydiant. Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ei ddull gweithredu a'i Strategaeth Digidol. Mae hyder mewn technoleg ddigidol yn newid y ffordd y mae cwsmeriaid am ryngweithio â'r sector cyhoeddus. Er mwyn i'r Awdurdod ddatblygu ei arlwy technoleg ddigidol a'r profiad i'w gwsmeriaid, mae angen buddsoddi mewn technoleg newydd. Dywedodd fod y Gyfadran wedi sicrhau arbedion cytûn untro yn gynharach na'r disgwyl ac wedi galluogi rhyddhau arian i gefnogi'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chlustnodi. Cyflawnwyd

hyn drwy reoli swyddi mewn ffordd ragweithiol a gwella effeithlonrwydd. Yn ddiweddar, mae Swyddogion wedi cyflwyno systemau digidol a fydd yn sicrhau effeithlonrwydd busnes ac yn trawsnewid y Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Cyfeiriwyd yr Aelodau at Atodiad 1 i'r adroddiad, a oedd yn rhoi'r manylion am y dyfynbris a gafwyd drwy'r fframwaith G-Cloud - Abavus Ltd. Mae'r cynnig ar gyfer system i fentrau sy'n darparu ar gyfer cyfres lawn o raglenni sy'n cefnogi'r sefydliad wrth iddo drawsnewid y Gwasanaethau i Gwsmeriaid a'r rhaglen ymgysylltu â chwsmeriaid. Mae'r cynnig, ar hyn o bryd, yn amcangyfrif costau gweithredu llawn, gan gynnwys gwaith integreiddio a hyfforddi. Nododd yr Aelodau y bydd staff mewnol, sydd â'r gallu a'r setiau sgiliau cywir, yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, yn ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith integreiddio a hyfforddi yn fewnol gyda rhywfaint o gymorth arbenigol allanol. Bwriedir caffael y trwyddedau i fentrau sydd eu hangen ar gyfer nifer diderfyn o ddefnyddwyr am gost o £72,500 y flwyddyn am bedair blynedd, sef cyfanswm cost o £290,000. Bydd hyn yn gadael balans o £210,000 yn y gronfa wrth gefn arfaethedig sydd wedi'i chlustnodi, ac argymhellir bod y swm hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer caffael y gwaith integreiddio a hyfforddi gofynnol yn ôl yr angen, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol. Yn y tymor hwy, rhagwelir y bydd yr arbedion effeithlonrwydd a geir drwy ffyrdd gwell o weithio yn darparu'r cyllid ar gyfer talu'r costau blynyddol y tu hwnt i'r cytundeb pedair blynedd cychwynnol.

Trafododd y Cabinet y cynigion, a dod i'r farn y bydd y cyfeiriad strategol hwn yn galluogi'r Awdurdod i ddatblygu seilwaith digidol addas ar gyfer Gwasanaethau i Gwsmeriaid. Bydd hyn yn darparu system hawdd ei deall a'i defnyddio ar gyfer cwsmeriaid, a bydd y Swyddogion yn trafod darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r cyhoedd. Gofynnodd yr Aelodau am roi gwybod i'r holl Gynghorau Tref a Chynghorau Cymuned am y system newydd adeg ei rhoi ar waith.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo sefydlu cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu'r canlynol:

(i) Caffael y trwyddedau i fentrau yn y lle cyntaf drwy'r fframwaith G-Cloud am gost o £72,500 y flwyddyn am bedair blynedd (cyfanswm cost o £290,000);

(ii) £210,000 ar gyfer costau gwaith integreiddio a hyfforddi, a fydd yn cael ei gytuno gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol yn ôl y gofyn.

## 6. ADRODDIAD AR Y CYNLLUN CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gweithredu'r Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd newydd.

Hysbyswyd y Cabinet o'r dyletswyddau helaeth sy'n deillio o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'r angen i gael cynllun a dull gweithredu ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'u dogfennu a'u cymeradwyo'n llawn. Mae'r Ddeddf yn ffurfio sail gyfreithiol ar gyfer rheoli'r briffordd, hawliadau ac achosion cyfreithiol. Mae'r risgiau sy'n deillio o'r swyddogaeth hon yn debygol o waethygu wrth i gyllidebau cynnal a chadw priffyrdd ddod o dan bwysau cynyddol drwy gwtogi ar y gyllideb. Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd UK Roads Liaison Group Gôd Ymarfer – sef ‘Well-Managed Highway Infrastructure; er nad yw'n orfodol, mae'n amlygu arfer da. Dyddiad gweithredu'r Côd Ymarfer newydd yw mis Hydref 2018, pan ddylai'r Awdurdodau Priffyrdd fod wedi adolygu eu gweithdrefnau, eu polisïau a'u harferion yn unol ag argymhellion y Côd. Eglurodd y Swyddogion fod rhaid i Awdurdodau arfer eu barn eu hunain ar y Côd Ymarfer hwn, ond, os na fyddant wedi dilyn y canllawiau perthnasol a geir yn y Côd, bydd disgwyl iddynt roi rhesymau da dros fynd yn groes iddo. Mae'r Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd yn

darparu dogfen eang ar gyfer materion ffyrdd cerbydau, troedffyrdd, goleuadau'r strydoedd, a strwythurau. Mae'n nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau i archwilio, adrodd, ymgymryd â'r camau angenrheidiol, a chofnodi'r gwaith a wneir ar asedau ffyrdd cerbydau a throedffyrdd. Mae hefyd yn ffurfio sail amddiffyniad cyfreithiol y Cyngor yn erbyn hawliadau yswiriant, ar gyfer anaf personol a difrod i eiddo/cerbydau, a wnaed ar y briffordd. Datblygwyd y Cynllun gan ystyried argymhellion y Côd Ymarfer newydd. Yn ogystal, mae pob ffordd ar hyd a lled y Fwrdeistref wedi'i hasesu yn ystod y broses hon.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi mai Caerffili yw'r Awdurdod cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd newydd i gydymffurfio â'r canllawiau hyn, a chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r amserlenni atgyweirio cyfredol ac arfaethedig y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.12 yn yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog fod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Adfywio a'r Amgylchedd – ar 30 Hydref 2018, a chytunwyd yn unfrydol ar yr argymhellion yn y cyfarfod hwnnw.

Ategodd y Cabinet argymhellion yr adroddiad, a dangos eu gwerthfawrogiad i'r Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd a'r Tîm Priffyrdd am y gwaith manwl a wnaed o ran y Cynllun Cynnal a Chadw Priffyrdd. Trafodwyd yr arian grant a gafwyd hyd yn hyn ac, o ran edrych ar faterion ariannu yn y dyfodol, bydd y Swyddogion hefyd yn gweithio gyda Bwrdd y Prosiect Adfywio ynglŷn â chyfleoedd megis datblygu prosiectau sydd wedi'u ‘gadael ar y silff’ a fydd o gymorth pan fydd cyfleoedd arian grant newydd yn codi yn y dyfodol. Roedd yr Aelod Cabinet dros yr Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd yn falch o ddweud wrth yr Aelodau fod y Tîm Priffyrdd wedi'i enwebu ar gyfer Gwobr y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (‘APSE’) ar gyfer gwobr y perfformiwr gorau ym maes priffyrdd, a chynhelir y seremoni ym mis Rhagfyr 2018.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) yn unol â'r Côd Ymarfer newydd, i gefnogi'r defnydd o'r fethodoleg hon ar gyfer gwaith cynnal a chadw priffyrdd yn y dyfodol;

(ii) cefnogi'r newidiadau a nodwyd ar gyfer gwaith arolygu'r rhwydwaith yn Atodiad 2;

(iii) cefnogi'r cynnig a nodwyd ym mharagraff 4.12 i ddiwygio'r amserlen ar gyfer atgyweirio diffygion nad ydynt yn rhai brys a'r cynnig i gadw'r amserlen ar gyfer atgyweirio diffygion brys.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.00am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 14 Tachwedd 2018.

________________________

CADEIRYDD